

05/03/21

Annwyl Riant Warcheidwad,

Rydym yn awyddus iawn i groesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol a braf bydd croesawu disgyblion blynyddoedd 11 a 13eg i'r ysgol ar gyfer gwersi arferol ar ddydd Llun y 15fed o Fawrth. Bydd disgyblion Bl. 10 a 12 yn dychwelyd i ddysgu wyneb i wyneb ar ddydd Iau'r 18fed o Fawrth. Yn ogystal, bydd disgyblion bl. 7-9 yn ail gydio yn eu haddysg gyda diwrnod yr un yn yr ysgol ar ddiwrnodau gwahanol cyn gwyliau'r Pasg. Mae wedi bod yn gyfnod heriol a phryderus i'r holl ddisgyblion dros y misoedd diwethaf a gwych bydd eu gweld yn dychwelyd i ryw lefel o normalrwydd er mwyn ailgydio yn eu dysgu ac ail-gysylltu gyda'u ffrindiau a'u hathrawon. Byddwn yn ffocysu ar eu lles yn ogystal â'u dysgu yn ystod y cyfnod yma o ddychwelyd.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'n glir ar ba ddiwrnod y bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol:

Diwrnod	Blwyddyn	Diwrnod	Blwyddyn
Llun 15/03/21	11 a 13	Llun 22/03/21	10, 11, 12 a 13
Mawrth 16/03/21	11 a 13	Mawrth 23/03/21	7, 10, 11, 12 a 13
Mercher 17/03/21	11 a 13	Mercher 24/03/21	8, 10, 11, 12 a 13
Iau 18/03/21	10, 11, 12 a 13	Iau 25/03/21	9, 10, 11, 12 a 13
Gwener 19/03/21	10, 11, 12 a 13	Gwener 26/03/21	10, 11, 12 a 13

Bydd rhyddid gan ddisgyblion y 6ed (Bl. 12 a 13eg) i fynychu'r ysgol ar gyfer eu gwersi yn unig, os gallant deithio i ac adre o'r ysgol yn ddiogel. Ni fydd darpariaeth bwyd ar y safle yn ystod y bythefnos yma a bydd disgwyl i ddisgyblion ddod â phecyn bwyd ar gyfer cinio yn ddyddiol. Bydd disgyblion sydd yn deilwng i brydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn taliad BACS am y bythefnos olaf ac felly bydd angen dod â phecyn bwyd yn ddyddiol.

Wrth ddychwelyd, mae'r risg o ledaenu'r firws yn parhau wrth gwrs - er bod yr ymgyrch i frechu'r boblogaeth ar hyn o bryd yn llwyddiannus iawn ac yn dechrau amddiffyn y rhai sydd wedi ei dderbyn. **Bydd angen i ni barhau gyda mesurau Cofid grymus gan sicrhau ein bod yn eu gweithredu'n dynn** er mwyn lleihau'r risg i holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn erbyn dal y firws. Mae eich cefnogaeth fel rhieni / gwarcheidwad yn allweddol yn atgyfnerthu'r negeseuon allweddol yma. Rydych yn gyfarwydd gyda'r mesurau yma bellach (byddwn yn diweddarau ein rhestr lawn o fesurau lleihau risg ar ein safwe yn ystod yr wythnos nesaf):

- Petai unrhyw ddisgybl, neu rywun sy'n byw gyda **disgybl yn dangos symptomau** o Covid19, **NI DDYLAI'R disgybl fynychu ysgol**. Disgwylir i rieni roi gwybod i'r ysgol am yr achosion hyn.
- Disgwylir i staff, disgyblion ac ymwelwyr sicrhau **hylendid dwylo ardderchog** ar bob achlysur. Bydd angen i ddisgyblion ddefnyddio'r '**peiriannau diheintio dwylo**' sydd ar gael trwy'r ysgol yn rheolaidd yn ystod y dydd.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
 Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
 Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

| Aur



- Disgwylir i ddisgyblion sicrhau **hylendid anadlol ardderchog** drwy ddilyn canllawiau **'ei ddal, ei daflu', ei ddifa'** drwy'r amser - mae posteri o gwmpas yr ysgol i atgoffa pawb o hyn.
- Bydd **glanhau dwys a chyson** yn digwydd yn ystod y diwrnod ysgol, yn ffocysu ar arwynebau 'cyffwrdd uchel' ac ar ddiwedd pob gwrs yn yr ystafelloedd dosbarth.
- Mi fydd y **system un ffordd** yn parhau. Disgwylir i bawb ddilyn y system un ffordd ar bob achlysur er mwyn lleihau croesi mewn coridorau.
- Disgwylir i **BOB DISGYBL ymdrechu i gynnal pellter cymdeithasol** wrth deithio o gwmpas yr ysgol.
- Disgwylir i bob disgybl **aros o fewn eu grŵp cyswllt** fesul blwyddyn ar bob adeg ac i sicrhau nad ydynt yn cymysgu gyda disgyblion o flynyddoedd eraill.

Gorchuddion Wyneb:

Mae un newid pwysig yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, sef y bydd disgwyl i ddisgyblion **wisgo mygydau ym mhob gwrs mewn ystafell ddosbarth** wrth ddychwelyd ar y 15fed o Fawrth (oni bai eu bod wedi eu heithrio'n feddygol rhag gwneud). Yn ogystal, (fel oedd yn arferol o fis Medi) bydd disgwyl i ddisgyblion wisgo'u mwgwd bob dydd:

- wrth deithio ar fws ysgol i ac o'r ysgol
- ar y safle wrth gyrraedd (nid yn unig yr adeilad) yn y bore ac wrth adael yn y prynhawn;
- ar y coridorau;
- yn y ffreutur a'r neuaddau (oni bai eu bod yn bwyta eu cinio).

Mae'n fwriad i ganiatâu disgyblion i fod tu allan, ar fuarth penodol i'w blwyddyn, yn ystod egwyl a chinio ble fyddant yn gallu cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr. Yn yr achosion yma, byddwn yn caniatâu disgyblion i dynnu eu mygydau, er eu lles.

Byddwn yn parhau i gynnig gwasanaeth gwarchod argyfwng i ddisgyblion bl. 7 ac 8 hyd at y Pasg ac hefyd yn cynnig cefnogaeth lles yn yr ysgol i ddisgyblion penodol ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9 yn ystod pythefnos olaf y tymor (15.03.21 - 26.03.21).

Bydd pob disgybl yn dychwelyd yn llawn i'r ysgol ar ddydd Mawrth 13.04.21. Byddwn yn rhannu trefniadau pellach yn agosach at yr amser.

Os oes unrhyw gwestiwn gennych, peidiwch ag oedi i gysylltu.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies

